Gwaredu Daearegol

# Gwerthuso Safleoedd

## Ymatebion i'r Ymgyngoriadau



Radioactive Waste Management

Working together to protect the future

## Amodau Cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn ar gael o dan Bolisi Tryloywder Radioactive Waste Management Limited (RWM). Yn unol â'r polisi hwn, mae RWM yn mynd ati i wneud yn siŵr bod gwybodaeth am ei weithgareddau ar gael yn rhwydd, ac i alluogi partïon â diddordeb i gael mynediad at ei raglenni yn y dyfodol a dylanwadu arnynt. Gellir defnyddio'r adroddiad fel y mynnwch at ddibenion anfasnachol. Rhaid cael caniatâd RWM ar gyfer pob defnydd masnachol, gan gynnwys copïo ac ailgyhoeddi. Dylai ceisiadau am ganiatâd i ddefnyddio'r adroddiad yn fasnachol gael eu gwneud i RWM.

Er bod gofal arbennig wedi'i gymryd i sicrhau cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn, ni all RWM gymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ganlyniadau a allai godi pan fydd partïon eraill yn ei defnyddio.

© Radioactive Waste Management Limited 2019. Cedwir pob hawl.

Mae RWM yn is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ac mae'r holl hawlfreintiau, hawliau cronfa ddata a hawliau eiddo deallusol eraill sy'n berchen i RWM yn berchen neu'n perthyn, yn y pen draw, i'r NDA.

**Cyhoeddiadau Eraill**

Os ydych yn dymuno gweld adroddiadau eraill sydd ar gael gan RWM a'r NDA, mae rhestr gyflawn i'w gweld ar ein gwefan, www.nda.gov.uk, neu gallwch ysgrifennu atom yn y cyfeiriad isod.

**Adborth**

Gwahoddir darllenwyr i ddarparu adborth ar yr adroddiad hwn ac i ddarparu unrhyw awgrymiadau ar gyfer sut gallai RWM ystyried gwella ystod yr adroddiadau a'r wybodaeth yr ydym yn eu cyhoeddi. Dylid cyfeirio'r adborth at:

RWM Feedback
Radioactive Waste Management Limited
Building 329 West
Thomson Avenue
Harwell Campus
Didcot
OX11 0GD
UK
**e-bost:** rwmfeedback@nda.gov.uk

# Rhagymadrodd

Mae Radioactive Waste Management Limited (RWM) wedi cael ei sefydlu fel is-gwmni mewn perchnogaeth lwyr i ddarparu gwarediad daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd ac i ddarparu datrysiadau rheoli gwastraff ymbelydrol. Fel arloeswr ym maes technoleg niwclear, mae deunydd a gwastraff uwch eu hactifedd wedi cronni yn y DU dros amser a hynny'n sgil cynhyrchu trydan, gweithgareddau amddiffyn a gweithgareddau diwydiannol, meddygol ac ymchwil eraill. Maen nhw'n cael eu storio dros dro mewn safleoedd niwclear ar draws y DU. Bydd mwy yn cronni o ganlyniad i weithredu a datgomisiynu cyfleusterau presennol a gorsafoedd pŵer niwclear yn y dyfodol.

Gwaredu daearegol yw polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir.

Egwyddor gwaredu daearegol yw ynysu'r gwastraff yn ddwfn dan y ddaear y tu mewn i ffurfiant craig addas i wneud yn siŵr na fydd lefel niweidiol o ymbelydredd yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb. I gyflawni hyn, bydd gwastraff yn cael ei roi mewn cyfleuster peirianyddol dan ddaear – cyfleuster gwaredu daearegol. Bydd cynllun y cyfleuster yn seiliedig ar gysyniad aml-rwystr, lle mae rhwystrau naturiol a rhai wedi'u creu gan ddyn yn gweithio gyda'i gilydd i ynysu a dal y gwastraff ymbelydrol.

I nodi safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer lleoli cyfleuster gwaredu daearegol, mae'r Llywodraeth wedi datblygu dull seiliedig ar gydsyniad o weithio mewn partneriaeth â chymunedau. Mae'r broses leoli wrthi'n mynd rhagddi ac nid oes safle wedi'i nodi ar gyfer y cyfleuster gwaredu hyd yma.

# Crynodeb Gweithredol

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fframwaith polisi diweddaraf ar gyfer gwaredu daearegol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith polisi cyfatebol ym mis Ionawr 2019.

Mae’r fframweithiau polisi yng Nghymru a Lloegr yn disgrifio rôl RWM fel y sefydliad cyflawni ar gyfer gwaredu daearegol. Bydd RWM yn gyfrifol am leoli, adeiladu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol, a’i gau yn y pen draw. Mae’r ddau fframwaith polisi’n sefydlu dull seiliedig ar gydsyniad ac yn rhoi cymunedau wrth galon y broses leoli.

I sicrhau dull cyson a thryloyw o werthuso ardaloedd a safleoedd o ran eu haddasrwydd ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol, rydym wedi datblygu dwy ddogfen Gwerthuso Safleoedd – un i Gymru ac un i Loegr.

Mae'r dogfennau hyn yn esbonio sut byddwn yn ymgysylltu â chymunedau ar faterion a fydd yn codi yn ystod y broses leoli, a sut byddwn wedyn yn strwythuro’r gwerthusiadau sy’n cael eu cyflawni. Mae'r dogfennau wedi cael eu dylunio i grynhoi, mewn modd syml a dealladwy, yr hyn fydd yn rhaid i ni ei ystyried yn ystod y broses leoli er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni’r holl ofynion perthnasol. Bydd y dogfennau Gwerthuso Safleoedd hefyd yn ein galluogi ni i gasglu’r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud ceisiadau am y cydsyniadau fydd eu hangen arnom i ymchwilio i ardal ac, wedi hynny, i adeiladu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol.

Mae’r dogfennau’n nodi chwe ‘Ffactor Lleoli’ eang sy’n adlewyrchu beth, yn ein barn ni, fydd y materion allweddol i’w trafod â chymunedau sy’n cymryd rhan yn y broses leoli.

Mae pob un o’r ‘Ffactorau Lleoli’ wedi cael eu rhannu’n gyfres o ‘Ystyriaethau Gwerthuso’ i ddarparu rhagor o eglurder o ran y materion y byddwn yn eu hystyried ac a fydd yn sail i’n trafodaethau â chymunedau a rheoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol annibynnol y DU.

Rydym wedi cynhyrchu dwy ddogfen Gwerthuso Safleoedd ddrafft. Cawsant eu cyhoeddi ar gyfer ymgyngoriadau i geisio safbwyntiau ymatebwyr. Yng Nghymru, 16 Ionawr 2019 tan 14 Ebrill 2019 oedd y cyfnod ymgynghori; yn Lloegr, 19 Rhagfyr 2018 tan 31 Mawrth 2019 oedd y cyfnod hwn.

Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar wefannau GOV.UK ac RWM, a thynnwyd sylw amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid a sefydliadau at yr ymgynghoriad drwy gyfrwng rhestrau postio, rhestrau e-fwletinau a chyfryngau rhanbarthol. Roeddem hefyd wedi trefnu a chyflenwi rhaglen o ddigwyddiadau rhanbarthol a gweminarau yn nyddiau cynnar y prosesau ymgynghori. Cafodd y rhain eu cynnal mewn amryw o leoliadau er mwyn helpu darpar gyfranwyr i ddeall y dogfennau ymgynghori, a helpu i gynhyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth tua 200 o bobl i'r digwyddiadau hyn.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn gofyn pedwar cwestiwn:-

- Cwestiwn 1: “A oes unrhyw ffynonellau eraill o ofynion lefel uchel, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi, y dylid eu hadlewyrchu wrth Werthuso Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam?”
- Cwestiwn 2: “Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?”
- Cwestiwn 3: “Ydych chi'n cytuno â'r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi? A ddylid cynnwys unrhyw Ystyriaethau eraill wrth Werthuso, ac os dylid, pam hynny?”
- Cwestiwn 4: “Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?”

Cawsom gyfanswm o 90 ymateb ar draws y ddau ymgynghoriad. O blith yr ymatebion, gwnaethom nodi tua 800 o sylwadau neu bwyntiau unigol a oedd wedi'u codi gan yr ymatebwyr. Cafodd y rhain eu dadansoddi yn eu tro i nodi unrhyw themâu cyffredin, a'u grwpio gyda'i gilydd i lunio cyfres o ‘Negeseuon Allweddol’ a gawsom o'r ymatebion.

# Crynodeb Gweithredol

Dyma'r 8 Neges Allweddol a nodwyd gennym:

1. Gellid cael rhagor o eglurder o ran pa gyfraniad mae'r Gofynion wedi'i wneud i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol;
2. Gellid egluro ac esbonio'r materion diogelwch yn well, ac ystyried rhoi rhagor o amlygrwydd i ddiogelwch;
3. Gellid tynnu sylw at bwysigrwydd cymuned, ac ehangu'r Ystyriaethau Gwerthuso;
4. Gellid esbonio pwysigrwydd daeareg i nifer o'r Ystyriaethau Gwerthuso yn fwy clir a'i wneud yn fwy amlwg;
5. Codwyd materion penodol yn gysylltiedig â Ffactorau Lleoli o ran yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chostau;
6. Gallai pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd fod yn fwy clir;
7. Mae iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn dechnegol iawn mewn mannau, a byddent yn elwa ar ragor o eglurder ac esboniad; a
8. Byddai rhagor o eglurder ynglŷn â'n dull gwerthuso, yn enwedig asesiadau cymharol, yn fuddiol.

Rydym wedi nodi'r 8 Neges Allweddol yn erbyn pob un o'r cwestiynau gwreiddiol a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori. Ar gyfer pob Neges Allweddol rydym wedi llunio crynodeb o'r sylwadau a gawsom ni, ein hymatebion i'r sylwadau hyn, a sut mae'r sylwadau hynny wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ddiwygiadau a newidiadau i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd terfynol.

Mae tryloywder a gonestrwydd yn hollbwysig ar gyfer magu hyder ym mhopeth rydym yn ei wneud, ac rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n agos ac yn adeiladol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Rydym yn croesawu'r holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod y prosesau ymgynghori a hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am roi o'u hamser i ddarparu adborth gwerthfawr.

# Cynnwys

**Amodau Cyhoeddi** .......... 2

**Rhagymadrodd** .......... 3

**Crynodeb Gweithredol** .......... 4

**Cynnwys** .......... 7

**1. Ymgynghoriad ar y Dogfennau Gwerthuso Safleoedd** .......... 8
- Cyflwyniad .......... 8
- Ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd .......... 10
- Ein Hymgyngoriadau Cyhoeddus .......... 12

**2. Ein Hymateb i'r Ymgyngoriadau** .......... 14
- Yr Ymatebion a gawsom .......... 14
- Sut rydym wedi mynd ati i ymateb .......... 16
- Y ddogfen hon .......... 18
- Cysylltu â ni .......... 19

**3. Cwestiwn 1: A oes unrhyw ffynonellau eraill o ofynion lefel uchel, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi, y dylid eu hadlewyrchu wrth Werthuso Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam?** .......... 20
- **Neges Allweddol 1** – Gellid cael rhagor o eglurder o ran pa gyfraniad mae'r Gofynion wedi'i wneud i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol .......... 20

**4. Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?** .......... 23
- **Neges Allweddol 2** – Gellid egluro ac esbonio'r materion diogelwch yn well, ac ystyried rhoi rhagor o amlygrwydd i ddiogelwch .......... 23
- **Neges Allweddol 3** – Dylid tynnu sylw at bwysigrwydd cymuned, ac ehangu'r Ystyriaethau Gwerthuso .......... 26

**5. Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi? A ddylid cynnwys unrhyw Ystyriaethau eraill wrth Werthuso, ac os dylid, pam hynny?** .......... 29
- **Neges Allweddol 4** – Gellid esbonio pwysigrwydd daeareg i nifer o'r Ystyriaethau Gwerthuso yn fwy clir a'i wneud yn fwy amlwg .......... 29
- **Neges Allweddol 5** – Codwyd materion penodol yn gysylltiedig â Ffactorau Lleoli o ran yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chostau .......... 31

**6. Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny ?** .......... 37
- **Neges Allweddol 6** – Gallai pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd fod yn fwy clir .......... 37
- **Neges Allweddol 7** – Mae iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn dechnegol iawn mewn mannau, a byddent yn elwa ar ragor o eglurder ac esboniad .......... 40
- **Neges Allweddol 8** – Byddai rhagor o eglurder ynglŷn â'n dull gwerthuso, yn enwedig asesiadau cymharol, yn fuddiol .......... 42

**7. Casgliadau** .......... 45

# 1. Ymgynghoriad ar y Dogfennau Gwerthuso Safleoedd

## Cyflwyniad


Fel arloeswr ym maes technoleg niwclear, mae deunydd a gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd wedi cronni yn y DU dros amser. Maen nhw'n cael eu storio dros dro mewn safleoedd niwclear ar draws y DU. Caiff mwy ei gynhyrchu wrth i gyfleusterau presennol ddod i ddiwedd eu hoes a chael eu datgomisiynu a'u glanhau, a drwy weithredu a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear newydd.

Polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yw y dylid rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir drwy waredu daearegol. Mae gwaredu daearegol yn cynnwys ynysu gwastraff ymbelydrol yn ddwfn mewn creigiau addas i wneud yn siŵr na fydd lefel niweidiol o ymbelydredd yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb.

Ar ben y gwastraff sy'n bodoli eisoes, mae rhywfaint o ddeunydd ymbelydrol nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff ar hyn o bryd ond, pe penderfynid ar ryw adeg nad oes rhagor o ddefnydd iddo, byddai'n rhaid ei reoli fel gwastraff drwy waredu daearegol. Mae'r deunydd yma yn cynnwys tanwydd wedi'i ddefnyddio (gan gynnwys tanwydd wedi'i ddefnyddio o orsafoedd pŵer niwclear newydd), plwtoniwm ac wraniwm.

Mae Radioactive Waste Management Ltd (RWM), sef y cwmni sy'n gyfrifol am waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol, yn is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).

Bydd RWM yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o leoli, adeiladu, gweithredu ac, yn y pen draw, cau cyfleuster gwaredu daearegol yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydymffurfio â safonau uchel y DU o ran diogelwch ac amddiffyn yr amgylchedd, yn ogystal â'r gofynion perthnasol sydd wedi'u nodi mewn dogfennau polisi perthnasol.



Ffigur 1: Diagram enghreifftiol sy'n dangos daeargelloedd a thwneli gwaredu dan ddaear (heb eu llunio i raddfa).

# 1. Ymgynghoriad ar y Dogfennau Gwerthuso Safleoedd

## Ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fframwaith polisi diweddaraf ar gyfer gwaredu daearegol, gan amlinellu proses ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â chymunedau. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fframwaith polisi cyfatebol ar gyfer gweithio gyda chymunedau ym mis Ionawr 2019. Rydym yn cyfeirio at y dogfennau polisi hyn gyda'i gilydd fel 'polisi'r Llywodraeth'.

Mae polisi'r Llywodraeth yn sefydlu dull seiliedig ar gydsyniad ar gyfer RWM er mwyn ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ac awdurdodau lleol i ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer datblygu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol.

Cafodd dwy ddogfen Gwerthuso Safleoedd ddrafft eu datblygu ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus, un i Gymru[1] ac un i Loegr[2]. Roedd y rhain yn destun ymgynghoriad i ddarparu cyfle i randdeiliaid roi eu barn ar ein dull arfaethedig o asesu a gwerthuso ardaloedd a safleoedd posibl a allai gael eu nodi drwy'r broses leoli.

Bydd rhaid i RWM fodloni nifer o ofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi, a glynu wrthynt, er mwyn llwyddo i ymchwilio i ardaloedd a safleoedd posibl, adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol, yn ogystal â gofynion sy'n berthnasol i'r cyfnod ar ôl cau'r cyfleuster. Cyfeirir at y rhain fel y 'Gofynion[3]'. Roedd y dogfennau ymgynghori'n anelu at esbonio sut roeddem wedi defnyddio'r Gofynion sylfaenol hyn i helpu i ddatblygu cyfres o 'Ffactorau Lleoli' ac 'Ystyriaethau Gwerthuso'.

Cafodd y dogfennau hyn eu paratoi ochr yn ochr â'n 'Canllaw i Gymunedau'[4], sy'n nodi sut byddwn yn gweithio gyda chymunedau. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau Canllaw i Gymunedau a Gwerthuso Safleoedd yn disgrifio ein dull o ddod o hyd i gymuned fodlon a safle addas.

Gan fod y trefniadau polisi a rheoleiddio ychydig yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, rydym wedi llunio ac ymgynghori ar ddogfennau Gwerthuso Safleoedd drafft ar wahân i'r ddwy wlad. Serch hynny, roedd cynnwys craidd y dogfennau ymgynghori hyn, yn enwedig y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, a llawer o'r Gofynion, yn gyffredin yn y ddwy ddogfen. Felly, mae'r ddogfen hon ar yr ymatebion i'r ymgynghoriadau yn ymwneud â'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr.

---

[1] ***Gwerthuso Safleoedd – Sut byddwn yn gwerthuso safleoedd yng Nghymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus.***
[2] ***Gwerthuso Safleoedd – Sut byddwn yn gwerthuso safleoedd yn Lloegr – Ymgynghoriad Cyhoeddus.***
[3] *Cafodd y term Gofynion ei ddiffinio yn y dogfennau Ymgynghori, ac mae'n cael ei ddiffinio Gwerthuso Safleoedd terfynol. I ddiben y ddogfen hon o ymatebion yr Ymgynghoriad, y term 'Gofynion' yw hyn sydd wedi'i ddiffinio yn y Dogfennau Gwerthuso Safleoedd terfynol.*
[4] ***Canllaw i Gymunedau – Sut byddwn yn gweithio gyda chymunedau yng Nghymru a Community Guidance - How we will work with communities in England.***

Mae'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso oedd yn destun ymgynghoriad yn adlewyrchu gofynion presennol amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- Deddfwriaeth a chanllawiau;
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Gwaredu Daearegol, a fydd yn berthnasol i'r cyd-destun o ddatblygu seilwaith gwaredu daearegol penodol yn Lloegr; a
- Dogfennau polisi[5] Llywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar Weithio gyda Chymunedau i roi gwaredu daearegol ar waith (cyfeirir at hyn a diffinnir hyn fel polisi Llywodraeth yn y ddogfen hon).

Mae ein defnydd arfaethedig o'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, a'r dull a nodir yn ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd drafft, wedi'u dylunio i alluogi'r canlynol:

- dull cyson a thryloyw o asesu ardaloedd a safleoedd posibl;
- lefel briodol o werthuso ar gyfer pob ardal bosibl yn erbyn y Gofynion presennol a pherthnasol;
- cefnogaeth i geisiadau RWM am ganiatâd yn y dyfodol, gan gynnwys cydsyniadau cynllunio defnydd tir, trwyddedau amgylcheddol a thrwydded safle niwclear.

[5] *Implementing Geological Disposal – Working with Communities, An updated framework for the long-term management of higher activity radioactive waste, Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol EM, a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio Gyda Chymunedau, Llywodraeth Cymru.*

# 1. Ymgynghoriad ar y Dogfennau Gwerthuso Safleoedd

## Ein Hymgyngoriadau Cyhoeddus

Mae tryloywder a gonestrwydd yn hollbwysig ar gyfer magu hyder ym mhopeth rydym yn ei wneud. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n agos ac yn adeiladol â rhanddeiliaid drwy gydol y broses leoli. Dyna pam ein bod wedi cyhoeddi ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd arfaethedig yn wirfoddol a'u gwneud yn destun ymgynghoriad 12 wythnos o hyd.

**Y broses ymgynghori**

Yn Lloegr, roedd yr ymgynghoriad ar ein dogfen ddrafft: Site Evaluation - How we will evaluate sites in England ar agor o 19 Rhagfyr 2018 tan 31 Mawrth 2019 (cafodd y cyfnod o 12 wythnos ei ymestyn i 14 wythnos oherwydd bod yr ymgynghoriad yn rhedeg dros gyfnod y gwyliau).

Yng Nghymru, roedd yr ymgynghoriad ar ein dogfen ddrafft: Gwerthuso Safleoedd – Sut Byddwn yn Gwerthuso Safleoedd yng Nghymru ar agor o 16 Ionawr 2019 tan 14 Ebrill 2019.

Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori, gwnaethom gysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid er mwyn tynnu sylw'r grwpiau a'u haelodau at yr ymgynghoriad. Hefyd, defnyddiodd RWM ei restrau postio ac e-fwletin, a'i restrau o sefydliadau rhanddeiliaid a chyfryngau rhanbarthol i wneud pobl yn ymwybodol o'r ymgynghoriad.

Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar wefannau GOV.UK ac RWM, ynghyd â ffurflen ymateb yr oedd modd ei llwytho i lawr a'i llenwi. Roedd y dull hwn yn golygu bod cyfranogwyr yn gallu dewis anfon eu hymateb dros e-bost neu ddarparu sylwadau drwy'r post pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn gofyn pedwar cwestiwn:-

- **Cwestiwn 1:** "A oes unrhyw ffynonellau eraill o ofynion lefel uchel, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi, y dylid eu hadlewyrchu wrth Werthuso Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam?"[6]
- **Cwestiwn 2:** "Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?"
- **Cwestiwn 3:** "Ydych chi'n cytuno â'r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi? A ddylid cynnwys unrhyw Ystyriaethau eraill wrth Werthuso, ac os dylid, pam hynny?"
- **Cwestiwn 4:** "Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?"

[6] *Roedd Cwestiwn 1 yn yr ymgynghoriad ychydig yn wahanol yn nogfennau ymgynghori Cymru a Lloegr o ganlyniad i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, felly mae fersiwn dalfyredig wedi cael ei defnyddio yma. Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn Lloegr: "Are there any other sources of high level Requirements, other than siting process, National Policy Statement and Legal Requirements identified, that you think should be reflected in the Site Evaluation and why?" Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yng Nghymru: "Ar wahân i'r Broses Leoli a'r Gofynion Cyfreithiol a nodwyd, a oes unrhyw ffynonellau eraill o Ofynion lefel uchel y dylid eu hadlewyrchu yn y Gwerthusiad Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam hynny?".*

**Y digwyddiadau galluogi**
Cafodd rhaglen o ddigwyddiadau rhanbarthol ei threfnu mewn gwahanol leoliadau ar draws Cymru a Lloegr. Cafodd y digwyddiadau eu cynnal yn nyddiau cynnar y broses ymgynghori er mwyn rhoi digon o amser i gyfranogwyr ymateb i'r ymgynghoriad ar ôl y digwyddiadau.

Cynhaliwyd y digwyddiadau yng Nghymru ar 12 ac 14 Mawrth, a'r digwyddiadau yn Lloegr rhwng 7 Chwefror a 7 Mawrth.

Dewiswyd lleoliadau'r digwyddiadau i sicrhau cwmpas daearyddol eang, lleoedd y mae'n hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus, a lleoliadau addas i gynnal y digwyddiadau. Er mwyn cyrraedd cynifer o randdeiliaid â phosibl, roedd amserlen y digwyddiadau'n cynnwys digwyddiadau amser cinio a gyda'r nos mewn chwe lleoliad – Caergrawnt, Birmingham, Penrith, Cheltenham, Caerwysg, a Darlington. Trefnwyd digwyddiadau yn Llundain a Manceinion. Darparwyd y rhain fel digwyddiadau 'technegol' mwy manwl. Yng Nghymru, trefnwyd digwyddiadau amser cinio a gyda'r nos yn Abertawe a Llandudno.

Roedd yr holl ddigwyddiadau yn Lloegr yn dilyn yr un fformat. Roedd tîm RWM yn rhoi cyflwyniad rhagarweiniol ar gefndir a phwrpas y dogfennau, cyn rhannu pawb yn grwpiau a gofyn i'r cyfranogwyr ofyn cwestiynau neu godi pwyntiau i'w hegluro. Ymatebodd tîm RWM i'r cwestiynau a'r pwyntiau i'w hegluro a godwyd gan y cyfranogwyr.

Ar ôl gwrando ar amrywiaeth o randdeiliaid, penderfynwyd cynnal gweminarau ar gyfer gogledd a de Cymru, yn hytrach na digwyddiadau. Roedd y gweminarau'n brofiad rhyngweithiol. Cafodd y cyfranogwyr eu hannog i gyflwyno cwestiynau cyn ac yn ystod y digwyddiadau er mwyn ei gwneud yn bosibl eu hateb yn ystod y gweminarau. Roedd y gweminarau wedyn ar gael drwy wefan RWM fel adnodd ychwanegol i'r rheini a oedd yn dymuno eu gweld.

Gwnaethpwyd hi'n glir i'r cyfranogwyr ym mhob digwyddiad nad oedd y pwyntiau a drafodwyd a'r cwestiynau a ofynnwyd yn y digwyddiadau galluogi'n cael eu cofnodi fel rhan o'r ymgynghoriad ei hun, ac anogwyd y cyfranogwyr i gynnwys eu safbwyntiau yn eu hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

# 2. Ein Hymatebion i'r Ymgynghoriadau

## Yr Ymatebion a gawsom

Cawsom gyfanswm o 90 ymateb ar draws y ddau ymgynghoriad. Mae gennym ganiatâd i gyhoeddi'r set gyflawn o ymatebion a ddaeth i law, ac mae'r rhain ar gael ar gais.

Cawsom ymatebion gan amryw o randdeiliaid, gan gynnwys academyddion, awdurdodau lleol, cynghorau plwyf, rheoleiddwyr amgylcheddol, cyrff anllywodraethol ac unigolion â diddordeb.

Fe wnaeth dros 70% o ymatebwyr gyflwyno sylwadau mewn perthynas â chwestiynau 1, 2 a 3 yr ymgynghoriad, ac fe wnaeth dros 90% roi sylwadau ar gwestiwn 4. Cawsom hefyd nifer o ymatebion nad oeddent yn dod o dan gwmpas y pedwar cwestiwn ymgynghori, ond a oedd, serch hynny, yn codi materion o ddiddordeb ac a oedd yn bwysig i'r rhaglen gwaredu daearegol ehangach. Roedd llawer o'r ymatebion a gawsom yn rhoi sylwadau oedd yn ymwneud â mwy nag un o'r cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Fe wnaeth ymatebwyr eraill ailadrodd yr un pwynt ar gyfer pob cwestiwn.

Ar ôl dadansoddi'r 90 cyfraniad unigol, gwnaethom nodi tua 800 o sylwadau neu bwyntiau unigol a oedd wedi'u codi gan yr ymatebwyr. Roedd ein dadansoddiad yn caniatáu i ni nodi unrhyw themâu cyffredin a rhestr o'r 'Negeseuon Allweddol' a godwyd yn ystod y prosesau ymgynghori yng Nghymru a Lloegr. Roedd 8 Neges Allweddol yn deillio o'r ymatebion.

Ffigur 2: O ble daeth yr 8 Neges Allweddol



Dyma'r 8 Neges Allweddol a nodwyd gennym:

1. Gellid cael rhagor o eglurder o ran pa gyfraniad mae'r Gofynion wedi'i wneud i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol;

2. Gellid egluro ac esbonio'r materion diogelwch yn well, ac ystyried rhoi rhagor o amlygrwydd i ddiogelwch;

3. Gellid tynnu sylw at bwysigrwydd cymuned, ac ehangu'r Ystyriaethau Gwerthuso;

4. Gellid esbonio pwysigrwydd daeareg i nifer o'r Ystyriaethau Gwerthuso yn fwy clir a'i wneud yn fwy amlwg;

5. Codwyd materion penodol yn gysylltiedig â Ffactorau Lleoli o ran yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chostau;

6. Gallai pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd fod yn fwy clir;

7. Mae iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn dechnegol iawn mewn mannau, a byddent yn elwa ar ragor o eglurder ac esboniad; a

8. Byddai rhagor o eglurder ynglŷn â'n dull gwerthuso, yn enwedig asesiadau cymharol, yn fuddiol.

# 2. Ein Hymatebion i'r Ymgynghoriadau

## Sut rydym wedi mynd ati i ymateb

Gellir mapio'r negeseuon allweddol yn unol â chwestiynau'r ymgynghoriad fel a ganlyn.

**Cwestiwn 1 yn yr Ymgynghoriad:**
**"A oes unrhyw ffynonellau eraill o ofynion lefel uchel, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi, y dylid eu hadlewyrchu wrth Werthuso Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam?"**

Ni chafodd ffynonellau penodol eraill o ofynion lefel uchel eu nodi gan ymatebwyr yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn nodi y byddai modd cael rhagor o eglurder o ran pa Ofynion rydym ni wedi dibynnu arnyn nhw a sut mae'r rhain wedi rhoi sail i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd. Caiff hyn ei drafod yn Neges Allweddol 1: *Gellid cael rhagor o eglurder o ran pa gyfraniad mae'r Gofynion wedi'i wneud i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol.*

**Cwestiwn 2 yn yr Ymgynghoriad:**
**"Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?"**

Fe wnaeth ymatebwyr ddarparu amryw o safbwyntiau ar y Ffactorau Lleoli arfaethedig.

Un o'r Negeseuon Allweddol oedd yn deillio o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad oedd Neges Allweddol 2: *Gellid egluro ac esbonio'r materion diogelwch yn well, ac ystyried rhoi rhagor o amlygrwydd i ddiogelwch.*

Neges Allweddol arall oedd yn deillio ohono oedd Neges Allweddol 3: *Gellid tynnu sylw at bwysigrwydd cymuned, ac ehangu'r Ystyriaethau Gwerthuso.*

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi ailenwi'r Ffactor Lleoli 'Diogelwch' yn 'Diogelwch a Gwarchodaeth' ac rydym wedi darparu esboniad pellach drwy ychwanegu nifer o Ystyriaethau Gwerthuso newydd at y Ffactor Lleoli o ran Cymuned.

**Cwestiwn 3 yn yr Ymgynghoriad:**

"Ydych chi'n cytuno â'r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi? A ddylid cynnwys unrhyw Ystyriaethau eraill wrth Werthuso, ac os dylid, pam hynny?"

Fe wnaeth ymatebwyr ddarparu amryw o safbwyntiau ar yr Ystyriaethau Gwerthuso arfaethedig. Roedd llawer o'r safbwyntiau hyn yn gorgyffwrdd â'r ymatebion i'r ail gwestiwn am Ffactorau Lleoli.

Un o'r Negeseuon Allweddol oedd yn deillio o drydydd cwestiwn yr ymgynghoriad oedd Neges Allweddol 4: *Gellid esbonio pwysigrwydd daeareg i nifer o'r Ystyriaethau Gwerthuso yn fwy clir a'i wneud yn fwy amlwg*. Rydym wedi esbonio swyddogaeth bwysig daeareg mewn llawer o'n Ffactorau Lleoli a'n Hystyriaethau Gwerthuso yn y ddogfen ymateb hon, ac yn ein dogfen Gwerthuso Safleoedd derfynol.

Roedd amryw o faterion eraill hefyd yn ymwneud â'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso penodol sy'n cael eu trafod yn Neges Allweddol 5: *Codwyd materion penodol yn gysylltiedig â Ffactorau Lleoli o ran yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chostau.*

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi ailenwi'r Ffactor Lleoli 'Cost' yn 'Gwerth am Arian'. Rydym hefyd wedi aralleirio rhai o'r Ystyriaethau Gwerthuso sy'n ymwneud â'r Ffactorau Lleoli Ymarferoldeb Peirianyddol a Diogelwch.

**Cwestiwn 4 yn yr Ymgynghoriad:**
"Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?"

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eang eu cwmpas ac yn cynnwys nifer o awgrymiadau defnyddiol rydym wedi'u rhoi ar waith. Roedd nifer o Negeseuon Allweddol yn deillio o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, yn benodol:

Neges Allweddol 6: *Gallai pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd fod yn fwy clir;*
Neges Allweddol 7: *Mae iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn dechnegol iawn mewn mannau, a byddent yn elwa ar ragor o eglurder ac esboniad; a*
Neges Allweddol 8: *Byddai rhagor o eglurder ynglŷn â'n dull gwerthuso, yn enwedig asesiadau cymharol, yn fuddiol.*

Mae'r rhain wedi esgor ar nifer o newidiadau yn ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd. Rydym wedi darparu rhagor o gynnwys ar ddiben a chwmpas y dogfennau. Rydym wedi cymryd camau i egluro pethau ac wedi ceisio osgoi iaith dechnegol lle bo hynny'n bosibl. Rydym wedi cynnwys rhagor o groesgyfeiriadau at wybodaeth gyd-destunol sy'n bodoli eisoes ynghylch gwaredu daearegol ac sydd ar gael yng nghyhoeddiadau eraill RWM.

Mae'r tablau Ystyriaethau Gwerthuso yn dibynnu llai ar gysylltiadau â manyleb System Waredu RWM, ac mae gennym atodiad sy'n cynnwys enghreifftiau o faterion cyffredinol a fydd yn cael eu hystyried o dan bob un o'r Ystyriaethau Gwerthuso. Mae'r adran ar asesiadau cymharol wedi cael ei hehangu er mwyn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddull cyffredinol ein gwerthusiadau, ac mae nawr yn cael ei galw'n werthusiad cymharol.

## Y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r sylwadau a gawsom fel rhan o'r ddau ymgynghoriad, ac yn nodi ein hymateb i'r sylwadau hynny. Hefyd, rydym wedi esbonio sut mae'r sylwadau a gafwyd wedi cael eu defnyddio i roi sail i'n dull terfynol yn ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd, ac wedi amlygu lle rydym wedi newid ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd mewn ymateb i adborth yr ymgynghoriad.

O dan bob un o'r Negeseuon Allweddol, rydym wedi defnyddio'r is-benawdau canlynol i grynhoi'r sylwadau a nodwyd, a sut rydym wedi mynd ati i ymateb:

Eich sylwadau
Ein hymateb
Camau gweithredu

## Cysylltu â ni

Os bydd unrhyw ymatebydd i unrhyw un o'n hymgynghoriadau yn dymuno cael trafodaethau mwy manwl, awgrymwn yn gryf eu bod yn cysylltu â ni er mwyn i ni allu ceisio ateb rhagor o gwestiynau.

Anfonwch e-bost atom ni yn: **siteevaluation@nda.gov.uk** neu **gwerthusosafleoedd@nda.gov.uk** neu ysgrifennwch atom ni:
Site Evaluation Team
Radioactive Waste Management
Building 329, Thomson Avenue
Harwell Campus, Didcot
Oxfordshire, OX11 0GD

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gyflwyno sylwadau oedd, er eu bod yn berthnasol i'r rhaglen gwaredu daearegol, y tu allan i gwmpas ein hymgynghoriad ar sut byddwn yn gwerthuso safleoedd. Er enghraifft, fe wnaeth rhai ymatebwyr fynegi gwrthwynebiad i'r holl agweddau ar y diwydiant niwclear; ac roedd eraill yn cwestiynu pam nad yw polisi niwclear wedi'i ddatganoli.

Cawsom hefyd sylwadau a chwestiynau am bolisïau Gweithio gyda Chymunedau sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, yn ogystal â sylwadau'n nodi bod angen i'r Llywodraeth fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am opsiynau eraill ar wahân i waredu daearegol. Mae polisi'r Llywodraeth yn dweud mai ni yw'r sefydliad i ddarparu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Rydym yn gorff hyd braich ar wahân i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu fframwaith polisi y mae'n rhaid i ni weithredu yn unol ag ef. Felly, nid yw'n briodol i ni ymateb i faterion ynghylch polisi, ac nid yw'r sylwadau hyn wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon ynghylch yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn canolbwyntio ar werthuso ardaloedd a safleoedd posibl, a dim ond un elfen o'n gwaith yw hynny. Felly, fel yr eglurwyd yn y dogfennau ymgynghori, dylid darllen ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd terfynol ar y cyd â'n dogfennau Canllaw i Gymunedau sy'n esbonio sut byddwn yn gweithio gyda chymunedau.

Cawsom nifer o sylwadau yn gofyn am ragor o wybodaeth am gefndir a chyd-destun y gwaredu daearegol. Er mwyn sicrhau bod y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn canolbwyntio ar werthuso safleoedd, rydym wedi cyfeirio at wybodaeth arall sydd ar gael lle bo hynny'n briodol. Mae corff sylweddol o adnoddau a gwybodaeth ychwanegol ar gael gan RWM drwy amryw o ffynonellau, fel cyhoeddiadau, adroddiadau ymchwil a'n gwefan **www.geologicaldisposal.campaign.gov.uk**. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys dolenni i ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill fel Polisi'r Llywodraeth a chanllawiau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr annibynnol.

# 3. Cwestiwn 1:

## A oes unrhyw ffynonellau eraill o Ofynion lefel uchel, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi, y dylid eu hadlewyrchu wrth Werthuso Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam?

**Fe wnaeth tua 74% o ymatebwyr roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.**

### Neges Allweddol 1 – Gellid cael rhagor o eglurder o ran pa gyfraniad mae'r Gofynion wedi'i wneud i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol

**Eich sylwadau**

Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Seilwaith Gwaredu Daearegol[7], yn enwedig yng nghyd-destun cwestiwn 1 yr ymgynghoriad. Rhoddodd rhai ymatebwyr sylwadau ar ofynion ychwanegol posibl. Yn benodol, a ddylai dogfennau polisi sy'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol ac ardaloedd eraill sy'n elwa o statws neu warchodaeth amgylcheddol uwch gael eu hadlewyrchu'n fwy clir yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd?

Ar y cyfan, yng nghyd-destun cwestiwn 1 yr ymgynghoriad, fe wnaeth nifer o ymatebwyr nodi y gallai'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd adlewyrchu pwysigrwydd Gofynion eraill yn gliriach. Cyfeiriwyd yn benodol at yr angen i gynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddebau Ewropeaidd, nifer o Ddeddfau domestig ychwanegol (fel y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol), a rheoliadau, yn ogystal â pholisïau cynllunio a dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mewn ymateb i ymgynghoriad Cymru, cyfeiriwyd yn benodol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Hefyd, awgrymodd rhai ymatebwyr fod cymunedau a llywodraethu yn cael eu cynnwys fel gofyniad. Awgrymwyd na ddylai hyn bennu sut mae materion o'r fath yn cael eu trin, oherwydd y rheini sy'n cymryd rhan fyddai'n gyfrifol am gytuno arnynt, ond yn hytrach dylid cychwyn gyda datganiad o werthoedd y gallai cymunedau eu datblygu yn nes ymlaen.

Aeth rhai ymatebwyr y tu hwnt i hynny, ac awgrymu lleoliadau penodol fyddai'n addas (neu ddim yn addas) ar gyfer lleoli cyfleuster gwaredu daearegol yn eu barn nhw. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd rhesymau penodol, fel materion daearegol neu hanesyddol. Mynegwyd hefyd na ddylai RWM 'dargedu' ardaloedd sydd wedi cael eu hystyried o'r blaen, ac y dylai ganolbwyntio ar leoliadau eraill, gydag opsiynau ar y môr yn cael eu cynnig fel mannau mwy derbyniol.

[7] *Ar yr adeg y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y ddogfen Gwerthuso Safleoedd ddrafft yn ymwneud â Lloegr, roedd y Seilwaith Gwaredu Daearegol yn dal ar ffurf drafft; roedd ymgynghoriad wedi'i gynnal ond nid oedd wedi'i neilltuo nac ar ffurf derfynol eto.*

**Ein hymateb**
Bydd newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth, gan gynnwys y Seilwaith Gwaredu Daearegol, yn cael eu rheoli'n ofalus drwy ein System Rheoli Gofynion. Os oes newidiadau sylweddol i bolisi a deddfwriaeth sylfaenol, byddwn yn trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dogfennau gyda chymunedau sy'n rhan o'r broses leoli.

Mae'r broses leoli, sy'n seiliedig ar gydsyniad a nodwyd ym mholisi'r Llywodraeth, yn unigryw yng nghyd-destun prosiectau seilwaith mawr y DU o ran bod rhaid i gymuned leol gefnogi datblygiad cyfleuster gwaredu daearegol cyn iddo allu mynd rhagddo mewn lleoliad daearyddol penodol. Am y rheswm hwn, dim ond os yw'r gymuned berthnasol yn cefnogi dull o'r fath y gallai datblygiad fynd rhagddo yn yr ardal, a dim ond os byddwn yn cael y cydsyniad, y caniatâd a'r trwyddedau angenrheidiol. Byddai ystyried ardaloedd gwarchodedig, fel Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn faterion i'w trafod â chymunedau lleol, a byddai'n rhan annatod o unrhyw gais gynllunio ar gyfer defnydd tir. Am y rheswm hwn, rydym yn dal o'r farn bod y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn ystyried ardaloedd gwarchodedig yn ddigonol.

Wrth gwrs, bydd polisïau cynllunio lleol yn ystyriaethau sylweddol wrth drafod opsiynau posibl gyda chymunedau lleol. Mae'r Ffactorau Lleoli yn gyffredinol ac nid ydynt yn cyfeirio at ddogfennau na materion sy'n berthnasol i unrhyw leoliad daearyddol penodol. Bydd materion lleol yn cael eu trafod â chymunedau sy'n penderfynu ymwneud â'r broses leoli.

Rydym yn cydnabod bod ystod eang o ofynion y bydd angen i ni eu cyflawni er mwyn archwilio, adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol, yn ogystal â gofynion sy'n berthnasol i'r cyfnod ar ôl cau cyfleuster gwaredu daearegol. Nid oedd yn fwriad i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd nodi pob gofyniad y gallai fod angen ei fodloni.

# 3. Cwestiwn 1

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i Neges Allweddol 1, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**1.1** Diweddaru'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd er mwyn cynnwys is-adran newydd yn yr adran "Mynd i'r Afael â'r Gofynion" o'r enw "cynllunio defnydd tir". Ar gyfer Lloegr, bydd yn mynd i'r afael â materion cysylltiedig â gofynion y Seilwaith Gwaredu Daearegol a defnydd tir lleol, a sut bydd y rhain yn cael eu hystyried. Yn y ddogfen Gwerthuso Safleoedd wedi'i diweddaru ar gyfer Cymru, rydym wedi cynnwys cyfeiriad at y fframwaith rheoleiddio defnydd tir priodol.

**1.2** Cynnwys rhagor o eglurder o ran esbonio sut bydd y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso yn ddigon helaeth a hyblyg i ddelio â newidiadau i'r Gofynion sylfaenol yn y dyfodol.

# 4. Cwestiwn 2:

## Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?

**Fe wnaeth tua 73% o ymatebwyr roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.**

### Neges Allweddol 2 – Gellid egluro ac esbonio'r materion diogelwch yn well, ac ystyried rhoi rhagor o amlygrwydd i ddiogelwch;

**Eich sylwadau**

Roedd llawer o'r ymatebion yn ymwneud yn gyffredinol â'r achosion diogelwch y bydd yn rhaid i RWM eu paratoi a'u cyflwyno fel rhan o'i gais am drwydded safle niwclear, gan gynnwys argraffiadau'r cyhoedd o ddiogelwch.

Codwyd peryglon amgylcheddol a pheryglon eraill gan nifer o ymatebwyr, a oedd yn awgrymu bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r newid yn lefel y môr, asidedd, tywydd eithafol ac effeithiau eraill newid hinsawdd, yn ogystal â digwyddiadau annisgwyl, gan gynnwys rhai naturiol a dynol.

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr holi sut bydd y cyfleuster gwaredu daearegol yn cael ei farcio neu ba fath o arwyddion fydd yn tynnu sylw ato, er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gwybod bod cyfleuster o dan yr wyneb.

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr nodi bod angen cynnal a chadw, a/neu fonitro cyfleuster gwaredu daearegol yn y tymor hwy ar ôl iddo gau. Fe wnaeth rhai ymatebwyr awgrymu y dylid ychwanegu'r gallu i fonitro safle fel Ystyriaethau Gwerthuso. Holodd ymatebwyr sut byddai'r gwaith monitro'n cael ei gynnal oherwydd mae'n ymddangos mai'r agwedd tuag at waredu daearegol yw 'allan o olwg, allan o feddwl'.

Fe wnaeth nifer o ymatebwyr gyfeirio at bwysigrwydd diogelwch a chodi pryderon posibl cymunedau ynghylch storio a chludo deunydd ymbelydrol, gan gynnwys y risg o ymosodiad (ar sawl ffurf) a chyfeiriadau at asesiadau risg rhyngwladol cysylltiedig â chasgenni cludo. Awgrymwyd y dylai statws a gweladwyedd diogelwch fod yn fwy amlwg yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd, o ystyried ei bwysigrwydd fel gofyniad rheoleiddiol.

# 4. Cwestiwn 2

**Ein hymateb**
Mae ein gwytnwch mewn digwyddiadau ar yr wyneb fel erydu arfordirol neu lefel y môr yn codi, yn un o'r rhesymau pam mae gwaredu daearegol yn cael ei ffafrio yn rhyngwladol fel ateb tymor hir ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd. Bydd y gwaith rheoli risg ac atal damweiniau yn cael ei reoleiddio'n helaeth, a bydd angen cydymffurfio â phob Gofyniad o'r fath. Mae'n werth nodi bod trychinebau a damweiniau sylweddol yn bwnc mae'n rhaid ei asesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a fydd yn ofynnol er mwyn cefnogi ein ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer defnydd tir. Byddai angen ystyried materion fel hyn ar lefel benodol i'r safle er mwyn deall a ydynt yn debygol o fod yn berthnasol i'r achos diogelwch. Mae'n rhaid ystyried materion cysylltiedig â newid hinsawdd, gan gynnwys bod yn agored i drychinebau a damweiniau mawr sy'n cael eu hachosi gan newid hinsawdd, fel rhan o'r broses gynllunio ac asesu'r effaith ar yr amgylchedd.

Bydd angen ystyried goblygiadau peryglon allanol, fel tswnamïau, daeargrynfeydd ac ymchwydd eithafol yn y llanw, fel rhan o'n Hystyriaethau Gwerthuso ar gyfer diogelwch wrth adeiladu a'n diogelwch wrth weithredu, ac mae hyn eto'n rhan ofynnol o'r broses gynllunio ac asesu'r effaith ar yr amgylchedd.

Mae nifer o heriau cysylltiedig â marcio lleoliad cyfleuster gwaredu daearegol, gan gynnwys sicrhau bod yr holl farciau yn gallu gwrthsefyll treigl amser a bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu deall yn glir, ymhell yn y dyfodol o bosibl. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol annibynnol yn y DU a gyda'r Gymuned a allai Gynnig Lleoliad er mwyn cytuno ar y ffordd fwyaf priodol o farcio'r cyfleuster. Mae hwn yn bwnc sydd hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'n gwaith rhyngwladol, oherwydd mae gwledydd eraill sydd â chyfleusterau gwaredu daearegol hefyd yn ystyried y mater pwysig hwn.

Bydd cyfleuster gwaredu daearegol yn cael ei fonitro tra bydd gwastraff yn cael ei osod ynddo, a bydd gwiriadau yn cael eu cynnal i gadarnhau bod nodweddion diogelwch yn gweithredu yn ôl y disgwyl. Dim ond ar ôl i wiriadau cadarnhau pellach gael eu cynnal, ac ar ôl i achos diogelwch terfynol gael ei gyflwyno ac ar ôl i'r rheoleiddwyr gytuno arno, y bydd cyfleuster gwaredu daearegol yn cael ei gau. Bydd ein hachosion diogelwch yn cael eu gwneud ar y sail na fydd angen i bobl ymyrryd na monitro yn y tymor hir er mwyn cynnal diogelwch ar ôl penderfynu cau a selio cyfleuster gwaredu daearegol. Ni fyddem yn symud ymlaen i'r cam cau, ac ni fyddai'r rheoleiddwyr yn cytuno i gymryd y cam hwn pe bai unrhyw amheuaeth ynghylch diogelwch tymor hir y cyfleuster gwaredu daearegol.

Rydym yn cytuno bod diogelwch yn fater allweddol i gymunedau, nawr ac yn y dyfodol. Un o'r rhesymau caiff gwaredu daearegol ei ffafrio dros storio ar yr wyneb yw'r lefelau uwch o ddiogelwch sy'n gysylltiedig â storio gwastraff yn ddwfn o dan y ddaear. Felly, bydd diogelwch yn sylfaenol bwysig drwy gydol y broses leoli.

**Camau gweithredu**

Mewn ymateb i Neges Allweddol 2, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**2.1** Newid y Ffactor Lleoli 'Diogelwch' i ffactor 'Diogelwch a Gwarchodaeth' a chysoni'r Ystyriaethau Gwerthuso sylfaenol lle bo hynny'n briodol;

**2.2** Cynnwys esboniad ehangach o'r ystyriaethau o dan y Ffactor Lleoli Diogelwch a Gwarchodaeth sydd wedi'i ailenwi; ac

**2.3** Wedi cynnwys esboniad ehangach o sut bydd peryglon amgylcheddol a pheryglon eraill yn cael eu hystyried.

# 4. Cwestiwn 2

## Neges Allweddol 3 – Dylid tynnu sylw at bwysigrwydd Cymuned, ac ehangu'r Ystyriaethau Gwerthuso

Fe gawsom nifer o ymatebion a oedd yn amlygu pwysigrwydd yr Ystyriaethau Gwerthuso yng nghyswllt cymunedau. Roedd yr ymatebion hyn yn ymwneud â chwestiynau 2 a 3 yr ymgynghoriad ar y cyfan. Hefyd, cafwyd cais am ragor o wybodaeth am sut mae'r ddogfen Gwerthuso Safleoedd yn rhyngweithio â'r dull o weithio gyda chymunedau a nodwyd ym mholisi'r Llywodraeth; cafodd sylwadau fel hyn eu gwneud yng nghyswllt cwestiwn 4 yr ymgynghoriad ar y cyfan.

**Eich sylwadau**

Roedd ymatebwyr oedd yn pwysleisio pwysigrwydd y gymuned yn awgrymu bod yr effeithiau ar gymuned yn rhai tymor hir ac yn pontio'r cenedlaethau. Awgrymwyd hefyd y byddai'n bwysig ystyried goblygiadau cyfleuster gwaredu daearegol ar gymunedau cyfagos, a allai fod y tu allan i'r Ardal Chwilio neu'r Gymuned a allai Gynnig Lleoliad a nodir ym mholisi'r Llywodraeth. Awgrymwyd y byddai modd teimlo rhai effeithiau negyddol, fel yr effaith ar dwristiaeth neu amaethyddiaeth, ymhell tu draw i'r ardaloedd diffiniedig hyn.

Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar ddiffiniad 'cymuned', a nodi'n benodol bod angen i hwn fod yn hyblyg er mwyn caniatáu i'r 'gymuned' newid drwy gydol y broses leoli fel Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad, a bod safle a allai gynnig lleoliad yn cael ei nodi yn y pen draw.

Mewn ymateb i gwestiwn 3 yn bennaf, fe wnaeth rhai ymatebwyr roi sylwadau ar yr Ystyriaethau Gwerthuso sy'n ymwneud â Chymuned a gynigiwyd yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd drafft, ac awgrymu bod angen Ystyriaethau Gwerthuso ychwanegol yn y Ffactor Lleoli sy'n ymwneud â Chymuned er mwyn mynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion cymunedol.

Awgrymwyd y dylai'r gweithlu fod yn Ystyriaeth Gwerthuso newydd, ar y sail y dylid ystyried datblygu sgiliau a hyfforddiant a sut bydd hyn yn cael ei ddarparu.

Fe wnaeth ymatebwyr gyfeirio at bwysigrwydd iechyd a chydraddoldeb hefyd, a bod angen i gymunedau fod yn rhan o ddatblygiad yr Ystyriaethau Gwerthuso.

Fe wnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad yng Nghymru awgrymu y gallai fframweithiau asesu sy'n cael eu datblygu gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ddefnyddiol er mwyn asesu lles y gymuned. Fe gawsom lawer o ymatebion a oedd yn awgrymu y dylai effaith cyfleuster gwaredu daearegol ar gymunedau sy'n storio'r gwastraff i'w waredu ar hyn o bryd (a elwir yn 'gymunedau sy'n cynnig lleoliad' gan ymatebwyr) gael ei chynnwys fel un o'r Ystyriaethau Gwerthuso.

**Ein Hymateb**
Rydym yn cydnabod y bydd ein hystyriaethau cymunedol yn eang ac y bydd anghenion penodol y cymunedau sy'n rhan o'r broses leoli yn dylanwadu arnynt.

Rydym yn cydnabod y gallai cymunedau sy'n cymryd rhan yn y broses leoli fod ag amodau penodol y byddai angen eu bodloni er mwyn i'r gymuned fod yn fodlon lleoli cyfleuster gwaredu daearegol. Byddwn yn casglu gofynion o'r fath fel rhan o'r Ystyriaeth Gwerthuso Gweledigaeth y Gymuned Leol (sydd wedi cael ei hailenwi) er mwyn sicrhau bod llais y gymuned yn rhan hanfodol o'n gwerthusiadau.

Bydd yr asesiadau a'r gwerthusiadau y bydd angen i ni eu cynnal er mwyn deall y goblygiadau i'r gymuned o ran archwilio, adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol, yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ardaloedd dan ystyriaeth. Fodd bynnag, bydd ein hasesiadau a'n gwerthusiadau hefyd yn cynnwys ystyried goblygiadau sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r Ardal Chwilio a'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad[8]. Er enghraifft, lle mae angen drilio tyllau turio, neu gludo gwastraff a deunyddiau adeiladu.

Mae polisi'r Llywodraeth yn pennu diffiniadau ar gyfer 'Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad' a byddwn yn defnyddio'r diffiniadau hyn drwy gydol y broses leoli. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw diffinio cymuned yn broses hawdd. Mae enwi cymuned yn heriol o ganlyniad i natur tymor hir y broses leoli, ond dyma pam mae elfen o hyblygrwydd yn y diffiniadau polisi, er mwyn caniatáu i'r cysyniad o 'gymuned' esblygu a datblygu yn ôl yr angen wrth i'r broses leoli fynd rhagddi.

Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen datblygu ar safleoedd lle mae gwastraff yn cael ei storio ar hyn o bryd, neu'n agos at y rheini, er mwyn gallu cludo'r gwastraff i gyfleuster gwaredu daearegol. Bydd y llwybrau cynllunio a chaniatâd ar gyfer datblygiadau ychwanegol yn cael eu pennu pan fydd natur y datblygiad angenrheidiol yn glir.

---

*[8] Yr Ardal Chwilio yw'r ardal ddaearyddol sy'n cwmpasu'r holl etholaethau y gall RWM chwilio am safleoedd posibl ynddynt. O ran ardaloedd sy'n cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu o dan wely'r môr, bydd yr Ardal Chwilio ddim ond yn cynnwys yr ardal ar y tir.*
*Y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yw'r gymuned o fewn ardal ddaearyddol a allai gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol. Bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys yr holl etholaethau y byddai'r canlynol yn cael eu lleoli ynddynt:*
- *elfennau arfaethedig o gyfleuster gwaredu daearegol ar yr wyneb ac o dan y ddaear;*
- *unrhyw ddatblygiad cysylltiedig (fel y diffinnir yn Neddf Cynllunio 2008) ac unrhyw dir angenrheidiol i liniaru'r effeithiau;*
- *cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth o safle'r cyfleuster gwaredu daearegol i'r porthladd, i'r orsaf rheilffordd neu i'r prif rwydwaith ffyrdd agosaf (h.y. hyd at ble mae is-ffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd A agosaf);*
- *effeithiau ffisegol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau dan y ddaear, ac adeiladu a gweithredu'r cyfleuster gwaredu daearegol (a nodir drwy waith asesu effeithiau amgylcheddol a wneir i ategu ymgysylltiad RWM â chymunedau a'i geisiadau i gael caniatâd ar gyfer datblygiadau).*

# 4. Cwestiwn 2

Rydym yn cydnabod, er bydd datblygu cyfleuster gwaredu daearegol yn creu cyfleoedd newydd am swyddi, y gallai hefyd effeithio ar fusnesau a diwydiannau presennol. Un o fanteision cyfleusterau gwaredu daearegol yw'r cyfnod gweithredu hir, a fydd yn creu cyfleoedd cyflogaeth am gyfnod hir iawn. Dylai hyn ein galluogi ni i weithio gyda busnesau a darparwyr addysg lleol i gefnogi darpariaeth o ran hyfforddi a datblygu sgiliau. Byddwn yn gwneud hynny drwy'r Bartneriaeth Gymunedol.

Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod yn anodd asesu lles y gymuned. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau ac arbenigwyr i sicrhau bod ein dealltwriaeth o anghenion y gymuned yn dryloyw ac yn gadarn. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd asesiadau sy'n ymwneud ag iechyd a chydraddoldeb, fel Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal asesiadau ar wahanol adegau yn ystod y broses leoli, a byddwn yn eu cynnal pan fo hynny'n briodol.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i Neges Allweddol 3, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**3.1** Ehangu'r rhestr o ystyriaethau o dan y Ffactor Lleoli o ddau i bump, drwy rannu lles y gymuned yn ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac iechyd ar wahân; felly mae'r rhain yn Ystyriaethau Gwerthuso ar wahân o dan y Ffactor Lleoli sy'n ymwneud â Chymuned;

**3.2** Ychwanegu rhagor o gynnwys er mwyn egluro pwysigrwydd a rôl cymunedau yn y broses leoli, a chwmpas ein gwerthusiadau;

**3.3** Cynnwys esboniad manylach o'r hyn mae 'gweledigaeth y gymuned a allai gynnig lleoliad' yn ei olygu, a'i ailenwi yn: Ystyriaeth Gwerthuso Gweledigaeth y Gymuned Leol;

**3.4** Ei gwneud yn glir y bydd materion cysylltiedig â'r gweithlu yn cael eu hystyried o dan yr Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli sy'n ymwneud â Chymuned, drwy gyflwyno enghreifftiau o'r materion nodweddiadol rydym yn debygol o fod angen eu hasesu yn Atodiad B o'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd.

# 5. Cwestiwn 3:

## Ydych chi’n cytuno â’r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi’u nodi? A ddylid cynnwys unrhyw Ystyriaethau eraill wrth Werthuso, ac os dylid, pam hynny?

**Fe wnaeth tua 71% o ymatebwyr roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.**

### Neges Allweddol 4 – Gellid esbonio pwysigrwydd daeareg i nifer o'r Ystyriaethau Gwerthuso yn fwy clir, a’i wneud yn fwy amlwg

**Eich sylwadau**

Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi sôn am bwysigrwydd daeareg, ac roedd llawer wedi awgrymu’n fwy penodol y dylid defnyddio addasrwydd daearegol fel ffordd o wneud gwaith sgrinio daearegol er mwyn diystyru rhai ardaloedd yn gynnar.

Roedd rhai ymatebwyr wedi nodi eu dewis personol nhw ar gyfer mathau penodol o graig, ac roedd rhai hefyd wedi awgrymu y byddai rhai mathau penodol o graig yn anaddas ar gyfer cynnig lleoliad cyfleuster gwaredu daearegol.

**Ein hymateb**

Rydym yn cydnabod y bydd daeareg yn fewnbwn sylweddol yng nghyd-destun sawl un o'r Ffactorau Lleoli a’r Ystyriaethau Gwerthuso – yn arbennig Diogelwch (h.y. sut gallwn ddangos i reoleiddwyr niwclear annibynnol y DU bod modd adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol yn ddiogel mewn amgylchedd daearegol penodol); ac Ymarferoldeb Peirianyddol (h.y. sut gellir peiriannu cyfleuster gwaredu daearegol mewn amgylchedd daearegol penodol). Mae daeareg hefyd yn dylanwadu ar bethau fel math a natur y rwbel sy’n cael ei gynhyrchu a goblygiadau i drafnidiaeth yn sgil hynny, a gallai hynny effeithio ar asesiadau gwerth am arian.

Yn y cyd-destun hwn, mae daeareg yn fater hollbwysig wrth benderfynu a oes modd i ni fodloni'r Gofynion perthnasol.

# 5. Cwestiwn 3

Mae sgrinio ardaloedd allan ar ddechrau'r broses leoli gan ddefnyddio gwybodaeth ddaearegol yn anodd gan mai gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ymarfer cenedlaethol yn gallu dod i benderfyniad pendant o ran a yw ardaloedd yn 'addas' neu'n 'anaddas' ar gyfer datblygu cyfleuster gwaredu daearegol. I fynd i'r afael â hyn, fe wnaethom gynnal ymarfer Sgrinio Daearegol Cenedlaethol (NGS). Cafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018, ac mae ar gael ar ein gwefan.

Mae canlyniadau ein NGS[9] yn darparu crynodeb lefel uchel o'r wybodaeth ddaearegol sy'n berthnasol i ddiogelwch cyfleuster gwaredu daearegol er mwyn llywio'r trafodaethau â chymunedau a allai fod â diddordeb mewn bod yn rhan o'r broses leoli. Credwn fod yr NGS wedi bod yn hynod ddefnyddiol wrth ymgysylltu â chymunedau, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol ar ei hygyrchedd ar ôl ei lansio.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i Neges Allweddol 4, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**4.1** Egluro yn fwy pendant sut bydd daeareg yn dylanwadu ar lawer o'r Ystyriaethau Gwerthuso eraill, ac wedi ychwanegu testun i'r perwyl hwn;

**4.2** Nodi'n gliriach bwysigrwydd daeareg yng nghyd-destun y Ffactor Lleoli yn ymwneud â Diogelwch a Gwarchodaeth, sydd wedi cael ei ailenwi;

**4.3** Cynnwys y priodoleddau a ddefnyddir yn nodweddion daearegol yr NGS yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd ac yn Atodiad B, lle rydym yn darparu enghreifftiau o'r materion nodweddiadol rydym yn debygol o fod angen eu hasesu.

[9] *https://www.gov.uk/guidance/about-national-geological-screening-ngs*

## Neges Allweddol 5 – Codwyd materion penodol yn gysylltiedig â Ffactorau Lleoli o ran yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chostau

**Eich sylwadau ar yr Amgylchedd**
Roedd ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ynglŷn â'r Ystyriaethau Gwerthuso o fewn y Ffactor Lleoli ar gyfer yr Amgylchedd gan gyfeirio at yr angen i nodi'n glir y materion a fydd yn cael eu hystyried. Cyfeiriwyd at yr angen i RWM gynhyrchu achos diogelwch amgylcheddol a'r angen i RWM i ystyried goblygiadau amgylcheddol tymor hir cyfleuster gwaredu daearegol, a goblygiadau nodweddu safleoedd.

Awgrymwyd y dylid cydnabod effeithiau amgylcheddol lleol cyfleuster gwaredu daearegol. Cyfeirwyd yn benodol at sut bydd RWM yn gwerthuso materion yn ymwneud â'r rwbel a gynhyrchir drwy adeiladu a gweithredu. Pwysleisiwyd hefyd y dylai RWM fod yn gwella'r amgylchedd lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol.

**Ein Hymateb**
Rydym yn cydnabod bod effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol tymor hir a newidiadau i'r amgylchedd yn y tymor hir yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ei ystyried yn fanwl iawn fel rhan o'r prosesau cynllunio a chaniatâd amgylcheddol.

Bydd y prosesau rheoleiddio amgylcheddol a chynllunio defnydd tir yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn ystyried yr effeithiau amgylcheddol lleol a thu hwnt, gan gynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, eilaidd, cronnus, tymor byr, tymor canolig, tymor hir a thrawsffiniol. Bydd yr holl effeithiau hyn, gan gynnwys yr effeithiau tymor hir a amlygwyd gan yr ymatebwyr fel newid hinsawdd, newid daearegol a newid hydroddaearegol, yn rhan bwysig o'r asesiadau amgylcheddol y byddwn yn eu cynnal, ac felly byddwn yn eu trafod â chymunedau drwy'r Bartneriaeth Gymunedol.

# 5. Cwestiwn 3

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer yr Amgylchedd, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd diweddaraf:

**5.1** Cynnwys esboniad pellach o'r materion amgylcheddol y bydd angen eu hystyried o dan y Ffactor Lleoli sy'n ymwneud â'r Amgylchedd;

**5.2** Cynnwys rhagor o wybodaeth er mwyn esbonio'r Achosion Diogelwch amrywiol, gan gynnwys yr achos diogelwch amgylcheddol y bydd angen i RWM ei wneud;

**5.3** Cadarnhau'r effeithiau tymor hir sy'n gysylltiedig â darparu cyfleuster gwaredu daearegol a fydd yn cael eu cynnwys yn ein hasesiadau a'n gwerthusiadau, gan gynnwys newid hinsawdd, newid daearegol, newid hydroddaearegol, newid amgylcheddol hirdymor yn ogystal â'r amgylchedd dynol sy'n newid;

**5.4** Cadarnhau y bydd ein gwerthusiadau yn ystyried y goblygiadau cysylltiedig â rwbel drwy gyflwyno Atodiad B, sy'n darparu enghreifftiau o'r materion nodweddiadol rydym yn debygol o fod yn eu hasesu.

**Eich sylwadau ar Ymarferoldeb Peirianyddol**
Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu ailenwi terminoleg yn ymwneud ag Ymarferoldeb Peirianyddol er mwyn ei wneud yn haws ei ddeall.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi dweud nad oedd y dogfennau ymgynghori'n cyfeirio at yr angen posibl ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Roedd ymatebwyr hefyd wedi sôn am y cyflenwad gwaredu ac am adferadwyedd, yn gofyn am eglurhad ynghylch yr angen i drafod y materion hyn gyda chymunedau.

**Ein hymateb**
Rydym yn cydnabod bod materion fel y cyflenwad gwaredu ac adferadwyedd yn bwysig i gymunedau ac rydym yn disgwyl y bydd trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Gymunedol ynglŷn â'r pynciau hyn yn digwydd yn ystod y broses leoli.

Byddwn yn cydweithio â chymunedau i ddod o hyd i safle addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae polisi'r Llywodraeth yn cadarnhau[10] mai'r dybiaeth ar hyn o bryd yw mai dim ond un Cyfleuster Gwaredu Daearegol fydd ei angen. Fodd bynnag, cydnabyddir nad oes unrhyw warant y byddai gan gymuned sy'n fodlon cynnig lle i gyfleuster gwaredu daearegol graig addas sy'n ddigon mawr ar gyfer y cyflenwad gwaredu cyfan, nac y byddem yn gallu gwneud achos diogelwch ar gyfer y cyflenwad cyfan.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â'r Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer Ymarferoldeb Peirianyddol, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd diweddaraf:

**5.5.** Diweddaru'r Ystyriaethau Gwerthuso o fewn y Ffactor Lleoli Ymarferoldeb Peirianyddol i wneud cwmpas ein gwerthusiadau'n fwy clir, gan gynnwys ychwanegu rhagor o esboniad a disodli'r Ystyriaeth Gwerthuso o ran 'Adeiladwyedd' gydag Ystyriaeth Gwerthuso o ran Gallu i nodweddu ac Ystyriaeth Gwerthuso o ran y Gallu i ddylunio ac adeiladu.

[10] *Paragraff 2.17 yn Implementing Geological Disposal – Working with Communities (BEIS) a Pharagraff 8 yn Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau (Llywodraeth Cymru).*

# 5. Cwestiwn 3

**Eich sylwadau ar Drafnidiaeth**
Roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu nad oes yn rhaid i drafnidiaeth fod yn Ffactor Lleoli ar wahân oherwydd ei fod yn gorgyffwrdd â Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso eraill. Roedd ymatebwyr hefyd wedi sôn am faterion trafnidiaeth ehangach, ac wedi holi a oedd pellter oddi wrth ffynonellau gwastraff yn fater y byddai RWM yn ei ystyried.

**Ein hymateb**
Rydym yn cydnabod pwysigrwydd materion trafnidiaeth mewn cymunedau – dyna pam rydym yn cynnwys Trafnidiaeth fel Ffactor Lleoli ar wahân.

Mae rheolau caeth mewn grym wrth gludo deunyddiau niwclear, gan gynnwys gwastraff ymbelydrol. Mae'n cael ei reoleiddio'n annibynnol mewn ffordd gadarn er mwyn gwarchod pobl, eiddo a'r amgylchedd. Yn ogystal, bydd unrhyw weithgareddau trafnidiaeth arfaethedig, gan gynnwys yn ystod y gwaith nodweddu safleoedd a gweithredu, yn cael eu hasesu'n drylwyr yn ystod y broses gynllunio a'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â'r Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer Trafnidiaeth, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd diweddaraf:

**5.6** Ychwanegu eglurder ynglŷn â chwmpas ein Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, ac wedi cyfeirio at y gwaith o gludo gwastraff;

**5.7** Egluro ymhellach y bydd angen i'n gwerthusiadau ystyried yr holl symudiadau trafnidiaeth.

**Eich sylwadau ar Gostau**
Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu y byddai cryn ansicrwydd o ran costau gan fod mesur costau yn gynnar yn y broses leoli yn anodd iawn.

Roedd ymatebwyr wedi holi pa gostau fyddai'n cael eu gwerthuso, ac wedi cwestiynu'r berthynas rhwng costau a Ffactorau Lleoli eraill, a'r potensial y byddent yn gorgyffwrdd.

Roedd rhai ymatebwyr wedi awgrymu y dylid ailenwi'r Ffactor Lleoli Costau yn 'gwerth am arian', ac roedd eraill yn teimlo y dylai'r Ffactor Lleoli hwn gael ei ailenwi'n 'economeg'. Roedd eraill yn credu na ddylai costau fod yn Ffactor Lleoli. Roedd ymatebwyr hefyd wedi sôn am raglen ac amseru yng nghyd-destun costau.

**Ein hymateb**
Rydym yn cydnabod ei bod yn anochel y bydd ystyriaethau costau yn gorgyffwrdd, ac yn bwydo i mewn i agweddau eraill ar ein hasesiadau, dan Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso eraill. Gan ystyried ein dyletswydd statudol i sicrhau gwerth am arian, rydym yn cytuno y byddai ailenwi'r Ffactor Lleoli yn 'Gwerth am Arian' yn adlewyrchu'r dull holistaidd y bydd rhaid i ni ei ddefnyddio wrth ystyried costau. Mae ansicrwydd ynghylch costau'n bodoli ym mhob prosiect seilwaith mawr. Nid yw'n unigryw i waredu daearegol.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i'r materion sy'n ymwneud â'r Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer Costau, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd diweddaraf:

**5.8** Ailenwi'r Ffactor Lleoli 'Costau' yn 'Gwerth am Arian';

**5.9** Darparu eglurhad ychwanegol ar ansicrwydd ynghylch costau a chydnabod y bydd yr ansicrwydd hwn yn cael ei reoli yn ein gwerthusiadau;

**5.10** Ychwanegu rhagor o gynnwys yn ymwneud â chostau, yn egluro pam ei fod yn cael ei gynnwys fel Ffactor Lleoli, a'r agweddau cymhleth a chysylltiedig arno;

**5.11** Rhoi eglurhad ychwanegol ar yr Ystyriaeth Gwerthuso yn ymwneud â'r Amserlen Derbyn Gwastraff, a pham ei bod yn bwysig.

# 5. Cwestiwn 3

**Materion trawsbynciol sy'n ymwneud â'r Ystyriaethau Gwerthuso**

Roedd ymatebwyr hefyd wedi gwneud sylwadau a oedd yn cyffwrdd â’r holl Ystyriaethau Gwerthuso yn hytrach nag am Ystyriaethau Gwerthuso penodol. Rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd diweddaraf:

**5.12** Defnyddio iaith gyson yn ymwneud â’r “achos diogelwch ar ôl cau”;

**5.13** Cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch sut byddwn yn gofyn am fewnbwn gan gymunedau yn ein gwerthusiadau;

**5.14** Diweddaru, lle bo’n berthnasol, y Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso er mwyn ei gwneud yn glir y bydd yr holl werthusiadau yn ystyried goblygiadau'r camau ymchwilio, adeiladu, gweithredu, cau, ac ar ôl cau cyfleuster gwaredu daearegol;

**5.15** Ychwanegu cadarnhad y byddwn yn ystyried, fel sy’n briodol, effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol o ymchwilio, adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol (gan gynnwys effeithiau eilaidd, cronnus, trawsffiniol, tymor byr, tymor canolig, tymor hir, parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol);

**5.16** Egluro y byddwn yn ceisio sicrhau gwelliannau ac ychwanegu gwerth at y gymuned leol a mannau lleol lle bo hynny'n bosibl, ac y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'n gwerthusiadau.

# 6. Cwestiwn 4:

## Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?

**Fe wnaeth tua 91% o ymatebwyr roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.**

Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn am ragor o eglurder a manylion ynglŷn â phwrpas a chwmpas sylfaenol y dogfennau Gwerthuso Safleoedd. Yn benodol, sut mae'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso yn cysylltu â'r Gofynion presennol, a sut bydd y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn cael eu defnyddio i roi sail i'n trafodaethau â chymunedau a'u llywio, yn ogystal â siapio ein gwerthusiadau.

### Neges Allweddol 6 – Gallai pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd fod yn fwy clir

**Eich sylwadau**
Fe wnaeth nifer o ymatebwyr awgrymu bod angen rhagor o eglurder ynghylch pwrpas a hyd a lled y dogfennau Gwerthuso Safleoedd, er enghraifft, a fydd RWM yn gwerthuso "safle" neu bob agwedd ar y datblygiad y tu hwnt i'r "safle" (e.e. gan gynnwys llwybrau trafnidiaeth a mannau y gallai rwbel gael ei gludo iddynt) ac a fydd y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso yn cael eu defnyddio i nodweddu safleoedd h.y. pryd a sut fydd y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso yn cael eu cymhwyso i'r broses leoli?

Gofynnodd ymatebwyr eraill am eglurder o ran ein gofynion; sut mae'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn cysylltu â'r Gofynion presennol, a sut bydd y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn cael eu defnyddio i roi sail i'n trafodaethau â chymunedau a'u llywio, yn ogystal â siapio ein gwerthusiadau o safleoedd.   Fe wnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu diffiniad y Ffactorau Lleoli a sut byddent yn cael eu defnyddio, gan awgrymu y gallai'r holl Ffactorau Lleoli (a'r Ystyriaethau Gwerthuso) gael eu hystyried yn ofynion yn eu rhinwedd eu hunain, ac awgrymodd eraill y dylai'r rhyngberthynas rhwng y Ffactorau Lleoli fod yn fwy clir.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr awgrymu bod Manyleb y System Waredu yn cynnwys gofynion amrywiol nad ydynt i'w gweld yn y dogfennau ymgynghori. Fe wnaeth eraill gwestiynu a oedd y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso yn gyflawn. Hefyd, cafwyd cwestiynau ynglŷn ag a fyddai ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn cael eu diweddaru yn ystod y broses leoli.

Fe wnaeth ymatebwyr godi mater asesiadau amgylcheddol, gan gwestiynu a fyddai RWM yn cwblhau'r gwahanol asesiadau drwy gydol y broses leoli, a phryd.

# 6. Cwestiwn 4

**Ein hymateb**
Mae'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn eu hanfod yn nodi sut byddwn yn ymgysylltu â chymunedau ar faterion a fydd yn codi yn ystod y broses leoli, a sut byddwn wedyn yn strwythuro ein prosesau gwerthuso ar gyfer safleoedd posibl.

Mae’r dogfennau Gwerthuso Safleoedd wedi cael eu llunio i grynhoi’r mathau cyffredinol o faterion y bydd angen i ni eu hystyried yn ystod y broses leoli, mewn ffordd syml a dealladwy. Gwneir hyn er mwn sicrhau ein bod yn ystyried a allwn fodloni'r holl Ofynion perthnasol a’n bod yn gallu casglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud ceisiadau am bob caniatâd angenrheidiol i archwilio, adeiladu, gweithredu a chau cyfleuster gwaredu daearegol.

Nid yw'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn nodi sut dylem roi’r Gofynion ar waith na sut byddwn yn gwneud hynny. Diben y dogfennau yw crynhoi'r Gofynion presennol mewn modd sy’n esblygu, yn hytrach na sefydlu dull neu system werthuso statig a gorfodol. Rydym wedi paratoi’r dogfennau Gwerthuso Safleoedd o’n gwirfodd fel adnodd i helpu a chynorthwyo trafodaethau â chymunedau, ac i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r broses leoli mewn modd cyson a thryloyw.

Bydd yn rhaid i ni ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a’r Rheoliadau Cynefinoedd yn agos drwy gydol y broses leoli, er mwyn pennu a fyddai’r datblygiad arfaethedig ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol mewn lleoliad daearyddol penodol yn debygol o effeithio ar safle(oedd) Ewropeaidd. Byddwn yn ymgysylltu’n agos â Natural England / Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Sefydliad Rheoli Morol yng nghyswllt hyn. Lle bo hynny’n briodol, byddwn yn llunio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn cefnogi ein ceisiadau am ganiatâd cynllunio defnydd tir. Bydd ein ceisiadau cynllunio hefyd yn cael eu cefnogi gan Ddatganiad Amgylcheddol a fydd yn cael ei baratoi yn unol â Fframwaith yr Asesiad Effaith Amgylcheddol.

Os bydd y Gofynion yn newid yn y dyfodol, er enghraifft, ar ôl newid yn y fframwaith deddfwriaethol neu bolisi sy’n ymwneud â gwaredu daearegol a/neu’r broses leoli ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol, bydd yn rhaid dychwelyd at y dogfennau Gwerthuso Safleoedd a’u diweddaru o bosibl er mwyn adlewyrchu’r newidiadau hynny’n iawn. Byddwn yn trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd gyda chymunedau sy’n rhan o'r broses leoli. Bydd unrhyw ddiweddariadau i’r dogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau proses leoli agored a thryloyw.

**Camau gweithredu**

Mewn ymateb i Neges Allweddol 6, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**6.1** Cynnwys rhagor o eglurder o ran pwrpas, strwythur a bwriad y dogfennau Gwerthuso Safleoedd;

**6.2** Rhoi rhagor o eglurder o ran ystod debygol materion a fydd yn cael eu hystyried o dan bob un o’r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso drwy ychwanegu Atodiad B;

**6.3** Cynnwys rhagor o eglurder o ran y cysylltiad rhwng y Gofynion a'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd a rôl Manyleb y System Waredu;

**6.4** Rhoi esboniad a chynnwys ychwanegol ynghylch y rhyngberthynas rhwng y Ffactorau Lleoli;

**6.5** Cynnwys gwybodaeth ychwanegol i’w gwneud yn glir y bydd y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn cael eu defnyddio drwy gydol y broses leoli.

# 6. Cwestiwn 4

## Neges Allweddol 7 – Mae iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd yn dechnegol iawn mewn rhannau, a byddent yn elwa ar ragor o eglurder ac esboniad

Roedd llawer o'r ymatebwyr a atebodd gwestiwn 4 yr ymgynghoriad wedi gwneud sylwadau ar iaith a chynnwys y dogfennau Gwerthuso Safleoedd drafft. Yn benodol, awgrymwyd y dylai'r dogfennau, sydd wedi'u llunio i symleiddio materion pwysig, fod yn hygyrch ac wedi'u cyflwyno mewn modd annhechnegol cyn belled â phosibl.

**Eich sylwadau**

Roedd llawer o'r ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am hygyrchedd y dogfennau, a'r iaith roeddem ni wedi'i defnyddio. Roedd ymatebwyr yn cydnabod yn llwyr bod tryloywder ac ymddiriedaeth yn allweddol ar gyfer darparu cyfleuster gwaredu daearegol mewn unrhyw leoliad neu gymuned benodol.

Awgrymodd sawl ymatebydd y gellid ychwanegu cynnwys yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd i roi rhagor o wybodaeth am ystod eang o faterion.

**Ein hymateb**

Rydym yn cydnabod bod rhaid i ni gyflwyno ein gwybodaeth mewn ffordd mor hygyrch â phosibl ac mewn fformatau sy'n diwallu anghenion amrywiol grwpiau defnyddwyr gwahanol. Rydym wedi cynnal adolygiad o'r dogfennau Gwerthuso Safleoedd i geisio gwneud yr iaith yn fwy clir.

Mae llawer o'r wybodaeth ategol mae ymatebwyr wedi cyfeirio ati eisoes ar gael ar ein gwefan. Serch hynny, mae'r ffaith nad oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o hynny'n awgrymu bod angen i ni wneud mwy i sicrhau bod pobl sydd angen yr wybodaeth hon yn gallu dod o hyd iddi'n gyflym. Bydd y sylw hwn yn cael ei fwydo i mewn i'n gwaith cyfathrebu er mwyn ystyried sut gallwn wneud ein gwybodaeth yn fwy hygyrch ac yn haws cael gafael arni.

Un o'r heriau allweddol sy'n rhaid i ni ei hwynebu yw cyfathrebu gwybodaeth fanwl mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chymunedau er mwyn sicrhau bod y deunyddiau rydym yn eu cynhyrchu yn ystyried anghenion y cynulleidfaoedd arfaethedig ac wedi'u teilwra ar eu cyfer.

**Camau gweithredu**

Mewn ymateb i Neges Allweddol 7, rydym wedi gwneud y canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**7.1** Diweddaru'r dogfennau i'w gwneud yn fwy hygyrch i gynulleidfa ehangach, gwella'r gallu i symud drwy'r dogfennau, a chynnal adolygiad o'r dogfennau i sicrhau bod yr iaith yn glir;

**7.2** Cynnwys gwybodaeth ychwanegol, neu gyfeirio at ddeunyddiau eraill lle bo hynny'n briodol, i fynd i'r afael â materion roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi sylw iddynt;

**7.3** Cynnwys esboniad ychwanegol o'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso gyda'r bwriad o'u gwneud yn glir i ystod eang o randdeiliaid.

# 6. Cwestiwn 4

## Neges Allweddol 8 – Byddai rhagor o eglurder ynglŷn â'n dull gwerthuso, yn enwedig asesiadau cymharol, yn fuddiol

Roedd llawer o'r ymatebion a gyflwynwyd i gwestiwn 4 yr ymgynghoriad yn gofyn am fwy o eglurder ar sut byddwn yn mynd i'r afael â gwerthuso safleoedd. Codwyd cwestiynau penodol am ansicrwydd y data a bylchau yn y data, materion sy'n gorgyffwrdd yn y Ffactorau Lleoli, a rolau a chyfrifoldebau.

**Eich sylwadau**

Awgrymodd ymatebwyr y dylem ddarparu mwy o eglurder ar ein dull o werthuso. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n bwriad i ddefnyddio dull ansoddol, iteraidd ac yn seiliedig ar dystiolaeth wrth werthuso safleoedd, gan gydnabod y bydd gormod o lawer o ansicrwydd i gynnal gwerthusiadau meintiol ystyrlon, yn enwedig yn gynnar yn y broses leoli pan fydd yr wybodaeth sydd ar gael yn gyfyngedig. Ar y cyfan, fe wnaeth ymatebwyr gadarnhau eu bod o blaid defnyddio mesurau ansoddol i gymharu a gwerthuso safleoedd, gan argymell peidio defnyddio sgorio perthynol.

Roedd sawl ymatebydd wedi codi cwestiynau cyffredinol am hynt y broses leoli ac am y syniad y bydd lefelau gwybodaeth yn cynyddu wrth i'r broses leoli fynd rhagddi.

Er bod y dogfennau ymgynghori wedi cyfeirio at yr angen posibl i gynnal asesiadau cymharol, gwnaethpwyd y sylw hefyd y gellir darparu rhagor o wybodaeth ar sut byddai'r asesiad cymharol gwrthrychol hwn yn cael ei gynnal yn ymarferol.

Roedd cwestiynau hefyd am y broses o wneud penderfyniadau, gan awgrymu bod angen i RWM fod yn fwy eglur am sut byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ystod y broses leoli, yn benodol:

- y penderfyniad i fwrw ymlaen i ymchwilio a datblygu safle; a'r
- penderfyniad i ddewis safle - os oes mwy nag un safle.

Awgrymwyd y dylai'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar y tebygolrwydd o allu adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ddiogel o fewn y gyllideb a'r cyfyngiadau amser, ac ar y tebygolrwydd y byddai'r cyhoedd yn derbyn y cyfleuster mewn lleoliad arfaethedig.

Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi holi sut byddai RWM yn mesur ewyllysgarwch y gymuned drwy gydol y broses leoli, a thros gyfnodau hir o amser.

Roedd llawer o'r ymatebwyr i gwestiwn 4 hefyd wedi holi neu wneud sylwadau am swyddogaeth yr amrywiol sefydliadau yn y broses leoli. Awgrymwyd bod angen egluro rôl awdurdodau lleol, pwysigrwydd y rheoleiddwyr annibynnol, a sut bydd penderfyniadau RWM yn cael eu craffu a'u goruchwylio'n annibynnol. Fe wnaeth ymatebwyr hefyd nodi bod angen i RWM ddefnyddio arbenigedd y gadwyn gyflenwi a sefydliadau allanol i gefnogi'r broses leoli.

**Ein Hymateb**
Mae polisi'r Llywodraeth yn seiliedig ar ddeialog a hyblygrwydd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i safbwyntiau a dewisiadau'r gymuned dan sylw, a hynny gan ystyried nodweddion amgylcheddol, ffisegol ac economaidd-gymdeithasol yr ardal. Byddai pennu dull meintiol o werthuso'r safle yn gwrthdaro mewn sawl ffordd â bwriad y fframwaith a sefydlwyd gan bolisi'r Llywodraeth.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai o'r asesiadau a'r dystiolaeth fydd yn sail i'n gwerthusiadau yn feintiol eu natur. O ganlyniad, rydym yn cytuno â sylwadau'r ymatebwyr a oedd yn nodi y byddai gwybodaeth ansoddol a meintiol yn cael ei defnyddio fel rhan o'r dystiolaeth sy'n sail i'n prosesau gwerthuso safleoedd.

Bydd yr ansicrwydd yn y prosesau gwerthuso safleoedd yn ystod camau cynnar y broses leoli yn cael ei ddefnyddio i lywio a rhoi sail i'n gwaith a'n hastudiaethau yn y dyfodol. Wrth i gymunedau posibl symud ymlaen drwy'r broses leoli, bydd lefel yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r data ynghylch nodweddion ardal benodol yn cynyddu. Wrth i ni gasglu gwybodaeth newydd, dylai'r ansicrwydd leihau, a dylai ein gwerthusiadau fod yn fwy manwl a chynhwysfawr – er gallai lefelau gwybodaeth amrywio rhwng pob ardal ddaearyddol unigol y byddwn yn ei gwerthuso. Yn y pen draw, byddwn yn datblygu ein gwerthusiadau i'r pwynt lle gallwn wneud penderfyniad, y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gymeradwyo, ynghylch a ddylai safle fynd ymlaen i'r cam nodweddu safleoedd, ac yna ymlaen i'r cam archwilio dan y ddaear a'r cam adeiladu/gweithredu. Lle bo hynny'n ofynnol, bydd y dull hwn hefyd yn ein galluogi ni i wneud asesiadau sy'n cymharu safleoedd.

O fewn y fframwaith penderfynu, gallai amgylchiadau godi lle mae angen i ni 'gymharu' mwy nag un safle. Yn yr un modd â phob gwerthusiad safle, byddwn yn defnyddio'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso fel strwythur cyffredinol er mwyn gwneud cymariaethau o'r fath.

Fe wnaeth ymatebwyr amlygu bod angen i ni ddibynnu ar amrywiaeth helaeth o arbenigwyr yn ogystal ag arbenigedd y gadwyn gyflenwi. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth helaeth o arbenigwyr o wahanol ffynonellau i'n helpu ni i gynnal ein harchwiliadau ac i ddadansoddi'r wybodaeth a'r data.

Byddwn hefyd yn ymgysylltu'n agos ac yn gyson â chyrff eraill yn ystod y broses leoli, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff rheoleiddio'r DU (yn benodol y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd). Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol yn y broses leoli, a bod eu cyfraniad yn y broses honno yn rhan allweddol o bolisi'r Llywodraeth.

**Camau gweithredu**
Mewn ymateb i Neges Allweddol 8, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol yn y dogfennau Gwerthuso Safleoedd:

**8.1** Cynnwys gwybodaeth ychwanegol i esbonio sut bydd y broses gwerthuso safleoedd yn gweithio yn ymarferol, a sut bydd ein gwerthusiadau yn esblygu dros amser. Rydym wedi egluro ein dull gwerthuso ansoddol arfaethedig ac wedi cynnwys rhagor o wybodaeth am wneud penderfyniadau;

**8.2** Cynnwys rhagor o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau cymunedau, awdurdodau lleol a rôl y rheoleiddwyr annibynnol, gan gynnwys darparu dolenni i'n canllaw i gymunedau ac i bolisi'r Llywodraeth; a

**8.3** Ehangu'r adran ar graffu er mwyn rhoi rhagor o eglurder ynghylch rôl y rheoleiddwyr yn y broses leoli.

# 7. Casgliadau

Fe wnaethom groesawu eich adborth ac rydym wedi gwrando ar yr adborth a gawsom mewn ymateb i'n hymgynghoriadau. Bydd yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn cyfrannu at ein rhaglen sy'n codi ymwybyddiaeth o'r angen i waredu gwastraff uwch ei actifedd drwy waredu daearegol, a chynllunio a darparu digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r adborth hwn hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel sail i lunio ein dogfennau Gwerthuso Safleoedd terfynol. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi gwneud y newidiadau allweddol canlynol:

- Mae'r Ffactor Lleoli Diogelwch wedi newid i Ffactor Diogelwch a Gwarchodaeth ac mae pwysigrwydd daeareg yn nifer o'r ystyriaethau gwerthuso wedi cael ei bwysleisio;
- Mae'r Ffactor Lleoli Cost wedi cael ei newid i Ffactor Gwerth am Arian;
- Yn y Ffactor Lleoli Cymunedol a'r Ffactor Lleoli Amgylcheddol, mae esboniadau mwy manwl o'r amrywiaeth o faterion y byddwn yn eu hystyried;
- Mae'r adran ar asesiadau cymharol wedi cael ei hehangu er mwyn cynnwys rhagor o wybodaeth am ddull cyffredinol ein gwerthusiadau, ac mae nawr yn cael ei alw'n werthusiad cymharol;
- Mae mwy o groesgyfeirio at wybodaeth gyd-destunol am gyfleusterau gwaredu daearegol sydd ar gael yng nghyhoeddiadau eraill RWM; ac
- Mae'r tablau Ystyriaethau Gwerthuso yn dibynnu llai ar gysylltiadau â manyleb System Waredu RWM, ac rydym wedi cynnwys atodiad sy'n cynnwys enghreifftiau o'r materion nodweddiadol sy'n debygol o gael eu hasesu.

Rydym yn croesawu'r holl sylwadau a ddaeth i law yn ystod y prosesau ymgynghori a hoffwn ddiolch i'r holl ymatebwyr am roi o'u hamser i ddarparu adborth gwerthfawr.

# Nodiadau



## Getting in touch

To learn more about the UK's mission to deal with radioactive waste

Email **gdfenquiries@nda.gov.uk**

Telephone **0300 0660 100**

Follow us on Twitter

**@rwm_gdf_uk**
**@rwm_community**

or visit the campaign website

**geologicaldisposal.campaign.gov.uk**

Radioactive Waste Management